ipcc

comisiwn cwynion
annibynnol
yr heddlu

YMDRIN Â CHWYNION YR HEDDLU

CANLLAW I AELODAU'R CYNULLIAD A'U STAFF

Beth yw rôl yr IPCC?

Sefydlwyd yr IPCC gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a daeth yn weithredol yn 2004. Ei brif swyddogaeth statudol yw cynyddu hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gwneud hyn trwy ymchwilio i'r cwynion mwyaf difrifol a'r honiadau o gamymddygiad yn erbyn yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac ymdrin ag apeliadau gan bobl nad ydynt yn fodlon ar y ffordd y mae'r heddlu wedi trin eu cwyn. Mae'r IPCC yn annibynnol ac mae'n gwneud ei benderfyniadau yn hollol annibynnol oddi ar yr heddlu, y llywodraeth a'r achwynwyr, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

Mae Comisiynwyr Gweithredol yn goruchwylio ac yn cymryd cyfrifoldeb terfynol am ymchwiliadau'r IPCC. Yn ôl y gyfraith, rhaid i Gomisiynwyr fod heb erioed wasanaethu fel swyddog heddlu.

Yn Ebrill 2006, ehangwyd cylch gorchwyl yr IPCC i gynnwys cwynion difrifol yn ymwneud â staff yn yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (pan fydd swyddogion HMRC yn defnyddio pwerau 'tebyg i'r heddlu'). Yn Chwefror 2008 gwelwyd ei awdurdod yn ehangu ymhellach i gynnwys Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig ar sail debyg i'r HMRC.

Mae gan yr IPCC tua 450 o staff yn gweithio mewn pum lleoliad yng Nghymru a Lloegr ac mae ganddo gyllideb o tua £37 miliwn y flwyddyn.

Beth mae'r IPCC yn ei wneud?

Mae'r IPCC yn ymdrin â:

Atgyfeiriadau
Os bydd rhywun yn marw neu'n dioddef anaf difrifol yn dilyn cyswllt â swyddog yr heddlu neu aelod o staff yr heddlu, rhaid i'r llu dan sylw, yn ôl y gyfraith, atgyfeirio'r digwyddiad at yr IPCC - hyd yn oed pan na fydd cwyn wedi cael ei chyflwyno ac na honnir bod unrhyw gamymddygiad. Yn ogystal â marwolaethau ac anafiadau difrifol, rhaid i luoedd hefyd atgyfeirio rhai digwyddiadau eraill at yr IPCC, er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â llygredd. Yn 2010/11, fe wnaeth yr IPCC ymdrin â thua 2,500 o atgyfeiriadau.

Cwynion
Mae'r IPCC yn ymchwilio i'r materion a'r cwynion mwyaf difrifol sy'n ymwneud ag ymddygiad swyddog neu aelod o staff yr heddlu. Rhaid i gwynion fod am ymddygiad unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu ac ni allant fod am gynnwys polisi'r heddlu yn lleol neu sut y mae'r gwasanaeth hwnnw wedi ei drefnu. Yn 2009/10, fe gyflwynwyd tua 30,000 o gwynion yn erbyn yr heddlu. Gwnaed tua 11,000 o'r rhain yn uniongyrchol i'r IPCC.

Apeliadau
Gall yr IPCC ystyried apêl i'r rheswm pam bod yr heddlu wedi peidio â chofnodi cwyn, y broses Datrysiad Lleol neu ganlyniad ymchwiliad lleol neu a oruchwylir. Yn 2010/11, fe wnaeth yr IPCC ymdrin â thua 6,300 apêl.

Mae gan yr IPCC hefyd rôl ganolog wrth gyfrannu at welliannau yn arferion yr heddlu. Mae'r IPCC wedi cyhoeddi bwletinau Dysgu'r Gwersi cyson i dynnu sylw at welliannau ac arfer gorau i heddluoedd ac eraill. Cyhoeddir y Bwletinau hyn yn www.learningthelessons.org.uk

Yn flynyddol, mae Adroddiad Blynyddol yr IPCC yn cael ei roi ger bron y Senedd yn San Steffan. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y galw am wasanaethau'r IPCC a pherfformiad y sefydliad wrth gyflawni'r gofynion hyn, ynghyd â chyfrifon y sefydliad.

Cyngor os……..

….Bydd eich etholwr yn dymuno cyflwyno cwyn yn erbyn yr heddlu

Gall cwynion gael eu cyflwyno yn uniongyrchol i'r heddlu dan sylw neu trwy'r IPCC. Nid oes gan yr IPCC y grym i gofnodi cwynion - fe wneir hyn gan yr heddlu neu awdurdod heddlu perthnasol. Mae hyn yn golygu, os bydd eich etholwr yn dewis anfon ei gŵyn at yr IPCC, y bydd ar yr IPCC angen ei hanfon at yr heddlu fel y gellir gwneud penderfyniad ar gofnodi neu beidio. Bydd ar yr IPCC angen caniatâd eich etholwr i wneud hyn. Heb y caniatâd hwn, fel arfer ni fydd yr IPCC yn medru anfon y gŵyn ymlaen, sy'n golygu na fydd y gŵyn yn cael ei thrin. Os bydd yr heddlu yn penderfynu peidio cofnodi'r gŵyn, bydd gan eich etholwr yr hawl i apelio at yr IPCC.

Fel Aelod Cynulliad, gallwch gyflwyno cwyn ar ran eich etholwr, ond unwaith eto bydd arnoch angen ei ganiatâd ysgrifenedig i wneud hyn.

Gellir cyflwyno cwynion mewn nifer o ffyrdd (ar y ffôn, trwy e-bost, trwy'r post). Y ffordd fwyaf effeithiol yw defnyddio ffurflenni ar-lein yr IPCC:

http://www.ipcc.gov.uk/index/complaints/your_complaint_/how_complaint.htm

Er mwyn cynorthwyo'r IPCC/heddlu i symud y gŵyn yn ei blaen, dylai eich etholwr gynnwys cymaint o'r wybodaeth ganlynol ag sy'n bosibl:

- Beth ddigwyddodd, a phryd y digwyddodd
- Pwy oedd yn ymwneud â'r digwyddiad, a beth a ddywedwyd ac a wnaed
- A oedd unrhyw dystion ar wahân i'r achwynydd a'r unigolyn oedd yn gwasanaethu'r heddlu, a ble gellir cysylltu â'r tystion
- Manylion am unrhyw ddifrod neu anaf a ddigwyddodd.

Nid yw cwynion am 'gyfarwyddyd a rheolaeth' neu faterion gweithredol yn cael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl yr IPCC. Os bydd gan eich etholwr unrhyw gwynion am y meysydd hyn, dylai gysylltu â Phrif Gwnstabl yr heddlu dan sylw neu'r awdurdod heddlu perthnasol.

Isod mae rhai enghreifftiau o gwynion sy'n ymwneud ag ymddygiad a materion cyfarwyddyd a rheolaeth:

Mae merch yn ei harddegau yn cael ei stopio gan yr heddlu a'i chwilio, yn ôl yr esboniad a roddir gan y swyddog, am arfau tanio. Mae'n cwyno na ddylai hi fod wedi cael ei stopio. Mae hyn yn gŵyn ddylai gael ei chofnodi dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu.

Mae prif swyddog wedi ceisio a chael yr hawl cyfreithiol angenrheidiol i swyddogion stopio a chwilio aelodau o'r cyhoedd ym mhob gorsaf reilffordd yn ardal yr heddlu, dan y Ddeddf Terfysgaeth. Mae aelod o'r cyhoedd (nad yw wedi ei stopio eto) yn cwyno y bydd mewn perygl o gael ei stopio heb reswm. Penderfyniad cyfarwyddyd a rheolaeth yw hyn ac nid yw'n gŵyn y dylid ei chofnodi dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu.

Cyngor os……..

….Bydd eich etholwr eisoes wedi cyflwyno cwyn yn erbyn yr heddlu

Bydd raid i'r heddlu perthnasol benderfynu a yw'r gŵyn yn un y dylid ei chofnodi dan y meini prawf a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002. Os bydd yr heddlu yn penderfynu peidio cofnodi'r gŵyn, bydd gan eich etholwr yr hawl i apelio at yr IPCC.

Wedi eu cofnodi, mae'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu trin gan yr heddlu dan sylw. Yn aml mae hyn yn cael ei wneud trwy ddefnyddio proses a elwir yn Ddatrysiad Lleol, sy'n golygu bod y swyddogion a/neu eu goruchwylwyr yn esbonio a datrys materion yn uniongyrchol gyda'r achwynydd. Mae'r IPCC yn annog y broses hon pan fydd yn addas gan mai dyma, yn aml, yw'r ffordd fwyaf cymesur, prydlon ac effeithiol o ddatrys pryderon pobl. Ni all cwynion sy'n cael eu trin yn y modd hwn arwain at weld gweithdrefnau camymddygiad yn cael eu gweithredu yn erbyn unrhyw swyddog nac aelod o staff yr heddlu. Dim ond gyda chytundeb yr unigolyn sy'n cyflwyno'r gŵyn y gellir cynnal Datrysiad Lleol.

Bydd cwynion mwy difrifol (neu mewn amgylchiadau pan na fydd yr achwynydd yn cytuno ar Ddatrysiad Lleol) yn gofyn am ymchwiliad lleol gan yr heddlu perthnasol. Cynhelir yr ymchwiliadau hyn yn gyfan gwbl gan yr heddlu - fel arfer gan swyddog o Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu ei hun, sydd ar wahân yn weithredol i'r swyddog/ion y cwynwyd amdanynt. Mae'r IPCC yn disgwyl i bob ymchwiliad fod yn gymesur i sicrhau bod ffocws pendant i adnoddau ymchwiliol, er budd y cyhoedd, a'u bod yn cael eu defnyddio yn effeithlon a theg. Mae gan achwynwyr hawl i apelio at yr IPCC ar ddiwedd yr ymchwiliad lleol.

Dim ond y materion mwyaf difrifol y mae'r IPCC yn eu hymchwilio, neu'r rhai sydd mewn perygl o danseilio hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Mae tri math gwahanol o ymchwiliad ar gael i'r IPCC - a oruchwylir, a reolir ac annibynnol. Esbonnir y rhain isod. Bydd Comisiynwyr, ynghyd â'r tîm ymchwilio, yn ystyried y ffeithiau ym mhob achos ac yn penderfynu pa fath o ymchwiliad fydd yn cael ei gynnal.

Ymchwiliadau a oruchwylir
A gynhelir gan yr heddlu dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth eu hunain. Bydd yr IPCC yn nodi beth ddylai'r ymchwiliad edrych arno ac yn cael adroddiad yr ymchwiliad pan fydd wedi ei gwblhau. Cynhelir tua 75 y flwyddyn.

Ymchwiliadau a reolir
Cynhelir gan yr heddluoedd dan gyfarwyddyd a rheolaeth yr IPCC. Cynhelir tua 75 y flwyddyn.

Ymchwiliadau annibynnol
Cynhelir gan ymchwilwyr yr IPCC ei hun a'i oruchwylio gan Gomisiynydd yr IPCC. Mewn ymchwiliad annibynnol, mae gan ymchwilwyr yr IPCC yr holl bwerau sydd gan yr heddlu eu hunain. Cynhelir tua 160 y flwyddyn.

Cyngor os……..

….Bydd eich etholwr am apelio at yr IPCC

Mae'r IPCC yn ystyried apeliadau gan achwynwyr ynglîn â:

- methiant heddlu i gofnodi cwyn
- y broses Datrysiad Lleol
- canlyniad ymchwiliad lleol neu a oruchwylir.

Gellir cyflwyno apeliadau trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein berthnasol:

http://www.ipcc.gov.uk/index/info_leaflets/appealing_leaflets.htm

Rhaid i'r IPCC dderbyn apeliadau cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr a gafwyd gan yr heddlu naill ai'n hysbysu'r achwynydd am benderfyniad i beidio â chofnodi neu ganlyniad ymchwiliad i gŵyn. Nid oes raid ystyried unrhyw apeliadau a dderbynnir tu allan i'r terfynau amser hyn.

Ar ôl i'r ffurflen apelio gael ei derbyn, bydd yr IPCC yn anfon llythyr cydnabod at eich etholwr. Bydd yr IPCC yn dweud wrth yr heddlu perthnasol am yr apêl ac yn gofyn am unrhyw bapurau cefndir ganddynt. Ar ôl cael y wybodaeth hon, gall yr IPCC asesu'r apêl a phenderfynu ar y canlyniad.

Os bydd yr IPCC yn cadarnhau'r apêl, byddant yn rhoi cyfarwyddiadau i'r heddlu neu awdurdod heddlu perthnasol am ba gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd. Bydd yr IPCC yn dweud wrth eich etholwr yn ysgrifenedig pa gyfarwyddiadau sydd wedi cael eu rhoi i'r heddlu a beth sy'n digwydd nesaf.

Os na fydd yr IPCC yn cadarnhau'r apêl, bydd yn ysgrifennu at yr etholwr yn esbonio pam bod hyn yn wir.

Wrth greu'r IPCC a'r system gwynion yn Neddf Diwygio'r Heddlu, fe benderfynodd Senedd San Steffan na ddylid cael hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr IPCC na hawl i atgyfeirio at unrhyw ombwdsmon arall. Mae'r IPCC yn cael ei reoli gan yr egwyddor gyfreithiol functus officio. Mae hyn yn golygu mai dim ond gan y Llysoedd drwy'r broses adolygiad barnwrol y gellir gwrthdroi unrhyw benderfyniad.

Taflenni Gwybodaeth yr IPCC

Mae'r IPCC yn cynhyrchu nifer o daflenni gwybodaeth sy'n esbonio'r cyfnodau gwahanol yn y broses gwynion. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol i'ch etholwyr a gellir eu lawr lwytho o wefan yr IPCC neu eu hanfon fel copi caled os gofynnir amdanynt.

http://www.ipcc.gov.uk/index/complaints/info_leaflets.htm

Y taflenni sydd ar gael yw:

- Canllaw i waith yr IPCC
- Sut i wneud cwyn yn erbyn yr heddlu
- Delio â'ch cwyn trwy ddatrysiad lleol
- Apelio yn erbyn peidio â chofnodi eich cwyn dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Apelio yn erbyn ymchwiliad yr heddlu i'ch cwyn
- Apelio yn erbyn y broses Datrysiad Lleol
- Chi a system gwynion yr heddlu (i swyddogion a staff yr heddlu)
- Cwynion yn erbyn swyddogion HMRC
- Cwynion yn erbyn aelodau o SOCA
- Cwynion yn erbyn staff UKBA

Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am yr IPCC a system gwynion yr heddlu ar gael ar wefan yr IPCC yn www.ipcc.gov.uk

Er mwyn gofyn am gopïau o'n llyfrynnau, neu i gael cyngor ar ymdrin ag achos yn eich etholaeth, cysylltwch â Swyddog Seneddol yr IPCC, Lianne Corris ar 020 7166 3185 neu lianne.corris@ipcc.gsi.gov.uk

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
Ffôn: 08453 002 002
Ffacs: 020 7404 0430
E-bost: enquiries@ipcc.gsi.gov.uk
Cyfeiriad: IPCC, 90 High Holborn, London, WC1V 6BH
IPCC Eastern Business Park, Wern Fawr Lane, St Mellons, Cardiff, CF3 5EA.

Further Information

Further information about the IPCC and the police complaints system is available on the IPCC website at www.ipcc.gov.uk

To request copies of our leaflets, or for advice on dealing with a constituency case, please contact the IPCC's Parliamentary Officer, Lianne Corris on 020 7166 3185 or lianne.corris@ipcc.gsi.gov.uk

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr HeddluFfôn: 08453 002 002
Ffacs: 020 7404 0430
E-bost: enquiries@ipcc.gsi.gov.uk
Cyfeiriad: IPCC, 90 High Holborn, London, WC1V 6BH
IPCC Eastern Business Park, Wern Fawr Lane, St Mellons, Cardiff, CF3 5EA.

IPCC Information Leaflets

The IPCC produces several information leaflets which explain the different stages of the complaints process. These may be helpful to your constituents and can either be downloaded from the IPCC website or sent out in hard copy on request.

http://www.ipcc.gov.uk/index/complaints/info_leaflets.htm

The leaflets available are:

- A guide to the work of the IPCC
- How to make a complaint against the police
- Dealing with your complaint by local resolution
- Appealing against the non recording of your complaint under the Police reform Act 2002
- Appealing against the police investigation into your complaint
- Appealing against the Local Resolution process
- You and the police complaints system (for police officers and police staff)
- Complaints against HMRC officers
- Complaints against members of SOCA
- Complaints against UKBA staff

Advice if……..

….Your constituent wishes to appeal to the IPCC

The IPCC considers appeals from complainants into:

- the failure of a police force to record a complaint
- the Local Resolution process
- the outcome of a local or supervised investigation.

Appeals can be made using the relevant online form:

http://www.ipcc.gov.uk/index/info_leaflets/appealing_leaflets.htm

The IPCC must receive appeals within 28 days of the date of the letter received from the police either informing the complainant of a non-recording decision or of the outcome of a complaint investigation. Any appeals received outside of this timeframe do not have to be considered.

Once the appeal form has been received, the IPCC will send your constituent an acknowledgement letter. The IPCC will tell the relevant police force about the appeal and will request any background papers from them. Once this information has been received, the IPCC can assess the appeal and determine the outcome.

If the IPCC uphold the appeal, they will give instructions to the relevant force or police authority about what actions they have to take. The IPCC will tell your constituent in writing what instructions have been given to the police and what happens next.

If the IPCC does not uphold the appeal, it will write to your constituent explaining why this was the case.

In creating the IPCC and the complaints system in the Police Reform Act, Parliament decided that there should be no right of appeal against an IPCC decision and no right to refer to any other ombudsman. The IPCC is governed by the legal principle of functus officio. This means that any decision made by the IPCC can be overturned only by the Courts through the judicial review process.

….Your constituent has already made a complaint against the police

The relevant force will have to make a decision about whether the complaint is recordable under the criteria set out within the Police Reform Act 2002. If the force decides not to record the complaint, your constituent will have a right of appeal to the IPCC.

Once recorded, most complaints are dealt with by the police force concerned. Often this is done using a process called Local Resolution, which involves officers and/or their supervisors explaining and resolving issues directly with the complainant. The IPCC encourages this process where appropriate as it is often the most proportionate, timely and effective way of resolving people's concerns. Complaints dealt with in this way cannot result in misconduct proceedings being taken against any officer or member of police staff. Local Resolution can be carried out only with the agreement of the person making the complaint.

More serious complaints (or in circumstances where the complainant does not agree to Local Resolution) will require local investigation by the relevant force. These investigations are carried out entirely by the police – usually by an officer from the force's own Professional Standards Department, which is operationally separate from the officer/s complained about. The IPCC expects every investigation to be proportionate to ensure that, in the public interest, investigative resources are focused and employed efficiently and fairly. Complainants have a right of appeal to the IPCC at the end of a local investigation.

The IPCC investigate only the most serious matters, or those which risk undermining public confidence in the police. There are three different types of investigation at the IPCC's disposal – supervised, managed and independent. These are explained below. Commissioners, along with the investigative team, will consider the facts of each case and decide which type of investigation will be conducted.

Supervised investigations
Carried out by the police under their own direction and control. The IPCC will set out what the investigation should look at and receive the investigation report when it is complete. Approximately 75 carried out per year.

Managed investigations
Carried out by police forces under the direction and control of the IPCC. Approximately 75 carried out per year.

Independent investigations
Carried out by the IPCC's own investigators and overseen by an IPCC Commissioner. In an independent investigation, IPCC investigators have all the powers of the police themselves. Approximately 160 carried out per year.

….Your constituent wishes to make a complaint against the police

Complaints can be made directly to the force concerned or via the IPCC. The IPCC does not have the power to record complaints – this is done by the relevant police force or police authority. This means that if your constituent chooses to send their complaint to the IPCC, the IPCC will need to send it on to the force so that a recording decision can be made. The IPCC will need your constituent's consent to do this. Without this consent, the IPCC is normally unable to send the complaint on, which means that the complaint will not be dealt with. If the force decides not to record the complaint, your constituent will have a right of appeal to the IPCC.

As an Assembly Member, you may make a complaint on your constituent's behalf, but again you will need their written consent to do this.

Complaints can be made in a number of ways (via phone, email, post). The most effective way is to use the IPCC's online forms:

http://www.ipcc.gov.uk/index/complaints/your_complaint_/how_complaint.htm

In order to assist the IPCC/force in progressing the complaint, your constituent should include as much of the following information as possible:

- What happened, and when it happened
- Who was involved, and what was said and done
- Whether there were any witnesses other than the complainant and the person serving with the police, and where the witnesses can be contacted
- Details of any damage or injury that took place.

Complaints about 'direction and control' or operational matters are excluded from the IPCC's remit. If your constituent has any complaints about these areas, they should contact the Chief Constable of the force concerned or the relevant police authority.

Below are some examples of complaints involving both conduct and direction and control issues:

A girl in her teens is stopped by the police and searched, according to the explanation given by the officer, for firearms. She complains that she should not have been stopped. This is a complaint which should be recorded under the Police Reform Act.

A chief constable has sought and obtained the necessary legal authority for officers to stop and search members of the public at all railway stations in the force area, under the Terrorism Act. A member of the public (who has not yet been stopped) complains he will be at risk of being stopped without reason. This is a direction and control decision and is not a recordable complaint under the Police Reform Act.

What does the IPCC do?

The IPCC deals with:

Referrals
If someone dies or suffers a serious injury after contact with a police officer or member of police staff, the force involved must by law refer the incident to the IPCC – even where no complaint has been made and no misconduct alleged. As well as deaths and serious injuries, forces must also refer certain other incidents to the IPCC, for example, those involving corruption. In 2010/11, the IPCC dealt with approximately 2,500 referrals.

Complaints
The IPCC investigates the most serious matters and complaints relating to the conduct of an officer or member of police staff. Complaints must be about the conduct of a person serving with the police and cannot merely be about the substance of a local police policy or how that service is organised. In 2009/10, approximately 30,000 complaints against the police were made. About 11,000 of these were made directly to the IPCC.

Appeals
The IPCC may consider an appeal into the failure of the police to record a complaint, the Local Resolution process or the outcome of a local or supervised investigation. In 2010/11, the IPCC dealt with approximately 6,300 appeals.

The IPCC also has an integral role in contributing to improvements in policing practice. The IPCC has published regular Learning the Lessons bulletins highlighting improvements and best practice for police forces and others. These Bulletins are published at www.learningthelessons.org.uk

Every year, the IPCC's Annual Report is laid before Parliament. This report contains detailed information about demand for IPCC services and organisational performance in meeting these demands, along with the organisation's accounts.

What is the IPCC's role?

The IPCC was established by the Police Reform Act (PRA) 2002 and became operational in 2004. Its primary statutory function is to increase public confidence in the police complaints system in England and Wales. It does this by investigating the most serious complaints and allegations of misconduct against the police in England and Wales, and handling appeals from people who are not satisfied with the way the police have dealt with their complaint. The IPCC is independent and makes its decisions entirely independently of the police, government and complainants, and the UK and Welsh Assembly Governments.

Operational Commissioners oversee and take ultimate responsibility for IPCC investigations. By law, Commissioners must never have served as a police officer.

In April 2006, the IPCC's remit was extended to include serious complaints relating to staff at the Serious Organised Crime Agency and Her Majesty's Revenue and Customs (where HMRC officers are using 'police like' powers). February 2008 saw its jurisdiction extended further to include the UK Border Agency on a similar basis to HMRC.

The IPCC has approximately 450 staff based in five locations in England and Wales and has a budget of around £37 million per annum.

ipcc
independent
police complaints
commission

HANDLING POLICE COMPLAINTS

A GUIDE FOR ASSEMBLY MEMBERS AND THEIR STAFF